# Ysgol Bro Aled

# Adroddiad Llywodraethwyr i rieni

'Diben ein dysgu yw disgleirio'

# 2023 - 2024

# Gair gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

Blwyddyn arall wedi hedfan heibio a dyma fy adroddiad ar ran Llywodraethwyr Ysgol Bro Aled am 2024.

Daeth Arolwg Estyn yn niwedd Mis Chwefror gyda'r adroddiad yn cyrraedd ym Mis Mai, a da oedd gweld canlyniadau da.

Mae cyllid wedi bod yn achosi pryder yn ystod y flwyddyn gyda thoriadau yn digwydd. Bu rhaid ail drefnu'r dosbarthiadau i weithredu hyn. Mae ein diolch yn fawr i'r Brifathrawes a'r Athrawon am oroesi'r sefyllfa yma. Yn anffodus disgwyliwn ragor o doriadau yn y dyfodol.

Derbyniodd ein Pennaeth swydd ychwanegol trwy dderbyn Pennaeth dros dro yn Ysgol Cerrig y Drudion ac mae yn llwyddo'n wyrthiol yn ymwneud a hyn. Mae'r canlyniad yn rhyddhau ychydig o arian ychwanegol i Ysgol Bro Aled sy'n gymorth at falansio y cyllid diwedd y flwyddyn.

Cafwyd 5 cyfarfod Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn, wyneb yn wyneb neu trwy 'Teams' a chwblhawyd nifer o aseiniadau hyfforddiant Llywodraethwyr y mwyafrif yn ymwneud a diogelwch plant.

Mae gwersi Cymraeg i rieni wedi ei chynnal yn ystod y flwyddyn a llawer o rieni wedi manteisio ar y cyfle er mwyn helpu gydag addysg eu plant.

Yn olaf carwn ddiolch i'm cyd Llywodraethwyr a Miss Einir Jones am eu cefnogaeth a'i chyngor yn ystod 2024

Mr Eifion Jones
Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Bro Aled
2023-24

# Llywodraethwyr

| Llywodraethwr | Ar ran… | Dyddiadau |
|---|---|---|
| Mr Eifion Jones (Cadeirydd) | Cymunedol | 2023-2027 |
| Mrs Bethan Woods | Rhiant | 2024-2028 |
| C'ydd Trystan Lewis | Cyngor Conwy | 2022-2026 |
| Mr Meurig Davies (Is Gadeirydd) | Cyngor Bro | 2018-2022 |
| Miss Tammi Owen | Cymunedol | 2023-2027 |
| Mrs Nerys Morgan | Rhiant | 2024 -2028 |
| Mrs Delyth Williams | Staff dysgu | 2024-2028 |
| Miss Einir Jones | Pennaeth | |
| Mr Iwan Taylor | Swyddog Gwe | |
| | | |

**Hyfforddiant Llywodraethwyr**

Eleni, drwy hwb mae hyfforddiant wedi ei gynnal ac wedi ei ddatblygu fel unedau dros y we. Cynhaliwyd cyfarfod y Llywodraethwyr wyneb yn wyneb gyda rhai yn ymuno dros y we yn defnyddio TEAMS.

**Monitro ac arsylwadau gan y Llywodraethwyr**

Mae monitro llyfrau wedi digwydd gan y llywodraethwyr ac hefyd monitro Iechyd a diogelwch a ddigwyddodd gan y llywodraethwyr ac aelodau o'r Cyngor Ysgol.

# Ysgol Bro Aled

Cafodd y polisiau isod eu debyn a'u mabwysiadu gan y llywodraethwyr.

| |
|---|
| Polisi Digyflogi mewn ysgolion |
| Polisi diogelu Plant |
| Polisi Iechyd a diogelwch |
| Polisi mwy abl a thalentog |
| Polisi Derbyniadau |
| Polisi Model cyflogi |
| Polisi Rheolaeth digyflogi |

**Presenoldeb a Gwaharddiadau**

Presenoldeb yr ysgol am y flwyddyn oedd 95%. Ni gafodd yr un disgybl ei wahardd o fewn y flwyddyn ysgol.

## Trefniadau'r Ysgol

- Dechreuwyd y flwyddyn gyda 3 dosbarth gyda 2 athrawes llawn amser, 1 athrawes rhan amser, y Pennaeth a 2 gymhorthydd dosbarth.
- Yn mis Chwefror fe gymerodd y Pennaeth swydd fel Pennaeth yn Ysgol Cerrigydrudion ac fe benodwyd Mrs Delyth Williams yn Bennaeth mewn gofal pan nad oedd y Pennaeth ar y safle.
- Fe barhaodd yr Ysgol i redeg gyda 3 dosbarth gyda 2 athrwes llawn amser Mrs Davies gyda Emwnt sef blynyddoedd 4, 5 a 6, Mrs Williams gyda Deunant sef 2 a 3 a Miss Ela Jones a Mrs Gwawr Davies gyda Chwibren Isa sef Meithrin, derbyn a blwyddyn 1 ac roedd 2 gymhorthydd dosbarth yn cynorthwyo'r dosbarthiadau.
- Yn anffodus ar ddiwedd Mawrth nid oedd posib ail adnewyddu contract i 1 cymhorthydd oherwydd diffyg cyllid
- Mae pwyslais yn parhau i fod at lais y disgybl wrth i'r athrawon fynd ati i gynllunio Gwaith y tymhorau.
- Mae disgyblion Ysgol Bro Aled yn llwyddo i fod yn ddwyieithog wrth iddynt adael Ysgol Bro Aled ac ymuno a'r Ysgol uwchradd o'u dewis.
- Mae cynllun addysg unigol yn cael ei lunio i ddisgyblion sydd ag Anghenion Addysg Ychwanegol ac mae disgyblion sydd ar y gofrestr Mwy abl a thalentog yn cael eu herio drwy'r cwricwlwm ac o fewn gwaith ysgolion y clwstwr.
- Disgwylir eglurhad o absenoldeb disgybl cyn gynted ag y bo modd i leihau absenoldebau anawdurdodedig.

Ysgol Bro Aled

**Cysylltiadau gyda'r Gymuned**

Mae ysgol Bro Aled yn ymfalchio yn ei hymdrech i gefnogi'r gymuned leol ac ehangach ym mhob ffordd bosibl.

Rydym yn annog cyfraniad y rhieni a'r gymuned leol yn addysg y disgyblion (Canu carolau yn yr Eglwys, gwadd henoed yr ardal i ginio ar ddydd Iau, aelodau'r gymuned yn dod mewn i ddarllen)

Mae cyswllt agos yn bodoli rhwng yr ysgol hon ac ysgolion cynradd lleol eraill i ymestyn a chyfoethogi'r cwricwlwm.

**Addysg Gorfforol a gweithgareddau allgyrsiol**

Ein nod fel ysgol yw rhoi cyfle i bob plenty ddatblygu hyd eithaf ei allu. I gyrraedd y nod yma, rydym yn defnyddio'r arbenigedd o fewn yr ysgol ac o bryd i'w gilydd yn defnyddio arbenigedd o fewn yr ardal. Dyma rai profiadau a dderbyniodd y disgyblion ystod y flwyddyn.

- Gwersi nofio ym mhwll nofio Llanrwst
- Mabolgampau ysgol
- Clwb Chwaraeon
- Chwaraeon Urdd
- Gwersi rygbi gan Swyddog Hwb YDC

# Cyllid

**Cyllid am y flwyddyn sydd yn gorffen 31/03/24**

Mae Awdurdod Addysg Conwy, yn dyrannu arian ar gyfer rhediad arferol yr ysgol yn ôl amrywiol fformiwlâu. Mae'r llywodraethwyr yn gyfrifol am:

- Argymell cyllideb sy'n sicrhau fod y safonnau angenrheidiol o addysg yn cael eu darparu o fewn y cyllidebau a gytunir; ac i fonitro cynnydd yn ystod y flwyddyn. Mae'r llywodraethwyr yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r pennaeth i osod y gyllideb ac adolygu gwariant manwl yr ysgol.
- Ni chafwyd unrhyw anrhegion gan, nac i'r llywodraethwyr
- Llywodraethwyr unigol sydd yn talu am gostau teithio a threuliau.
- Mae cyllideb fanylach ar gael, ar gais, gan yr Ysgol

**Incwm 2023-24 i'r mil agosaf**

Cyllid ar gael i ni: £370,000

Grantiau pellach: £72,000

Cyfanswm £442

**Gwariant 2023-2024 i'r mil agosaf**

Staff Addysgu a Chefnogaeth: £346,000

Cyflenwadau/Gwasnaethau: £79,000

Adeiladau: £37,000

Cyfanswm: £463,000

**Cyllid CRHA 2023-24**

Balans cychwynnol: £8,100

Talu allan: £800

Wedi casglu: £1,800

Yn y cyfri:£9,100

YSGOL BRO ALED LLANSANNAN

Blaenoriaethau

# Blaenoriaethau'r Ysgol 2023-24

1. Datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer cymhwyso medrau rhifedd yn drawsgwricwlaidd

2. Datblygu a chryfhau'r cyfleoedd i ymateb i adborth ar waith er mwyn i ddysgwyr wella ansawdd eu gwaith ac i'w datblygu'n ddysgwyr annibynnol

3. Datblygu'r ddarpariaeth er mwyn gwella cyflawniad a safonau ysgrifennu Cymraeg disgyblion Bl 2-6

Ysgol Bro Aled

**Cyfeiriad:**
Ysgol Bro Aled,
Llansannan,
Conwy,
Ll16 5HN

**Rhif ffon:**
01745 870660

**Ebost y Pennaeth:**
pennaeth@broaled.conwy.sch.uk

**Ebost y swyddfa:**
swyddfa@broaled.conwy.sch.uk

www.ysgolbroaled.co.uk

Mae pob pennawd yn y ddogfen hon yn ofynol yn ôl: Rheoliadau Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion Cymru